

**Protocol Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu Plant  
sydd wedi'u Heffeithio gan Rienï sy'n profi  
Salwch Meddwl**

**CYSUR: BWRDD DIOGELU PLANT  
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

| Fersiwn | Dyddiad Diwygio | Awdur  | Dyddiad y'i<br>cymeradwywyd<br>gan y Bwrdd | Dyddiad Adolygu |
|---------|-----------------|--|--|-----------------|
| F1      | 3/5/2017        | Cynhyrchwyd gan<br>Siân Howys a Donna<br>Prichard,<br>Gwasanaethau<br>Cymdeithasol<br>Ceredigion mewn<br>cydweithrediad â<br>Gweithgor<br>Gorchwyl a Gorffen<br>lleol ac aelodau o'r<br>Is-grŵp Polisiau a<br>Gweithdrefnau. | dd/g                                       | dd/g            |
| F2      | 17/5/2017       | Is-grŵp Polisiau a<br>Gweithdrefnau  | 13/7/17                                    | 13/7/19         |

**CYNNWYS:****TUDALEN:**

|           |  |    |
|-----------|--|----|
| ADRAN 1:  | Cyflwyniad   | 3  |
| ADRAN 2:  | Diben y Protocol   | 5  |
| ADRAN 3:  | Cwmpas y Protocol  | 5  |
| ADRAN 4:  | Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd                          | 6  |
| ADRAN 5:  | Safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac aelodau o staff | 8  |
| ADRAN 6:  | Rôl a chyfrifoldebau gwasanaethau iechyd meddwl            | 9  |
| ADRAN 7:  | Rôl a chyfrifoldebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol           | 11 |
| ADRAN 8:  | Ffactorau Risg   | 13 |
| ADRAN 9:  | Asesu  | 14 |
| ADRAN 10: | Cynllunio ac adolygu Gofal a Thriniaeth                    | 16 |
| ATODIAD 1 | Fframwaith Asesu   | 17 |
| ATODIAD 2 | Siart Llif Diogelu Plant                                   | 18 |
| ATODIAD 3 | Fframwaith Y Cymorth lawn ar yr Adeg lawn                  | 19 |

## 1. Cyflwyniad.

- 1.1 Nod cyffredinol y Protocol hwn yw sicrhau bod plant<sup>1</sup>, gan gynnwys plant heb eu geni rhiant/rhieni<sup>2</sup> sydd â salwch meddwl<sup>3</sup>, yn cael y cymorth a'r diogelwch priodol.
- 1.2 Mae gan bob asiantaeth gyfrifoldeb ar y cyd am ddiogelu ac amddiffyn plant. Mae hyn yn gofyn am gyfathrebu effeithiol a chydgyssylltu gwasanaethau amlasiantaeth i blant a'u teuluoedd yn effeithiol ar lefelau strategol a gweithredol. Gall y gwasanaethau hyn gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant, Iechyd, Addysg, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Sector Gwirfoddol. Mae'r Protocol hwn yn cynnig fframwaith ar gyfer cydweithio er mwyn sicrhau bod plant sy'n byw gydag oedolion sydd â salwch meddwl yn cael eu diogelu a'u cefnogi'n briodol yn Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- 1.3 Mae'r Protocol wedi'i dargedu'n benodol at yr holl weithwyr proffesiynol a'r aelodau o staff sy'n gweithio yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion a Gwasanaethau i Blant. Mae'n bodloni gofynion Deddf Plant 2004, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau diogelu statudol cysylltiedig, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983 (a Diwygiadau 2007), a Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008).
- 1.4 Mae angen i bob asiantaeth sicrhau ei bod yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni er lles gorau plant. Cydnabyddir y gall fod adegau lle bydd gwrthdaro buddiannau rhwng anghenion plentyn/plant ac anghenion rhieni sydd â salwch meddwl. Fodd bynnag, os yw plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu'n dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol<sup>4</sup>, lles y plentyn yw'r ystyriaeth bennaf a rhaid dilyn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.
- 1.5 Dylai pob asiantaeth fod yn ymwybodol bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cyflwyno dyletswyddau statudol newydd ar 'bartneriaid perthnasol' i roi gwybod am blant ac oedolion sy'n wynebu risg, ynghyd â diffiniadau newydd o ystyr plant ac oedolion sy'n

<sup>1</sup> Ystyr 'plentyn' yn y ddogfen hon yw unigolyn o dan **18 oed**.

<sup>2</sup> Er eglurder, ystyr 'rhiant' yw unigolyn sydd â chyfrifoldeb gofal plant sylweddol, p'un a yw'n rhiant biolegol ai peidio. Caiff y term 'rhiant' ei ddiffinio'n fwy gan rôl a chyfrifoldeb rhiant yn hytrach na bondiau teuluol neu enetig.

<sup>3</sup> Caiff y term 'salwch meddwl' ei ddefnyddio yng ngweddill y ddogfen hon er mwyn bod yn gryno, heb ystyried ei gysylltiadau â'r model meddygol. Mae'n cynnwys dibyniaeth fel y'i disgrifir yn adran dau.

<sup>4</sup> Cyflwynodd [Deddf Plant 1989](#) y **cysyniad o niwed sylweddol** fel trothwy sy'n cyfiawnhau ymyrraeth orfodol ym mywyd y teulu er mwyn diogelu plant. Diffinnir niwed sylweddol mewn deddfwriaeth fel cam-drin neu amharu ar iechyd a datblygiad. Mae'n disgrifio effeithiau camdriniaeth neu esgeulustod rhywiol, ffisegol, emosiynol, neu gyfuniad o wahanol fathau. Nid oes unrhyw feini prawf pendant y gellir eu dibynnu amynt wrth benderfynu ar yr hyn a olygir wrth niwed sylweddol. Gall un achos difrifol o gamdriniaeth, fel cam-drin rhywiol neu ymosodiad treisgar, achosi niwed sylweddol i blentyn. Fodd bynnag, yn amlach, mae niwed sylweddol yn digwydd o ganlyniad i gyfres hirsefydledig o ddigwyddiadau sy'n newid, yn niweidio neu'n amharu ar ddatblygiad corfforol a seicolegol plentyn. Mae'r niwed sylweddol sy'n deillio o effaith gyrydol camdriniaeth hirdymor yn debygol o gael effaith sylweddol ar ganlyniadau'r plentyn yn y dyfodol. (Diffiniad Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan)

<sup>5</sup> Gweler Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant Cyfrol 1 am ddiffiniad o bartneriaid perthnasol a mathau o gamdriniaeth.

wynebu risg a chategorïau o gamdriniaeth ac esgeulustod. Pan roddir gwybod am blentyn o dan Adran 130 o'r Ddeddf, **rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried a oes sail dros gynnal ymchwiliad o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

- 1.6 Dylid deall nad yw pob rhiant sydd â salwch meddwl yn ymddwyn yn ymosodol neu'n esgeuluso ei blant. Gall llawer o rieni sydd â salwch meddwl ofalu am eu plant yn ddiogel ac yn effeithiol os oes ganddynt rwydweithiau cymorth cadarnhaol da ac os gallant gael gafael ar gyngor a chymorth priodol yn y gymuned.
- 1.7 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod pwyslais cryf ar y ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth â rhieni a phlant a chynnig help, cyngor a strategaethau atal sy'n adeiladu ar gryfderau pobl ac yn mynd i'r afael â'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- 1.8 Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â fframwaith cyfreithiol y *Ddeddf Plant (1989 a 2004)*, *Deddf y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol a Gofal Cymunedol (1990)*, y *Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) a'r diwygiadau iddi (2007)*, y *Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010) a'r Ddeddf Hawliau Dynol (2000)*, a pholisïau gweithredol perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau plant a gwasanaethau iechyd meddwl ac, yn benodol, y Safonau Diogelu Plant ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion (2015) a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 2. Diben y Protocol

- 2.1 Diben y Protocol yw nodi cyfrifoldebau asiantaethau ac ymarferwyr o safbwynt rhannu gwybodaeth a chydweithio pan fo pryder bod iechyd meddwl rhiant yn effeithio ar ei allu i fagu plant ac yn gosod ei blant mewn sefyllfa lle mae angen gofal a chymorth arnynt a/neu lle maent yn wynebu risg o niwed, gan gynnwys plant heb eu geni. Mae'n seiliedig ar yr egwyddor y bydd cydweithredu a chyfathrebu amlasiantaethol rheolaidd yn arwain at asesiadau hyddysg, trefniadau cynllunio effeithiol a gwell canlyniadau i blant a theuluoedd.
- 2.2 Neges allweddol y Protocol yw bod yn rhaid i bob asiantaeth iechyd meddwl sy'n darparu gwasanaethau i oedolion sydd â chyfrifoldebau rhieni a gofal plant roi'r ystyriaeth bennaf i amddiffyn a diogelu lles plant.
- 2.3 Y nod yw hwyluso ymatebion cydgysylltiedig gan Wasanaethau i Blant a Theuluoedd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Gofal Sylfaenol ac Asiantaethau Partner, gan gynnwys cynnal asesiadau ar y cyd o deuluoedd pan fod pryderon ynghylch diogelwch plant a phan fod gan y rhiant broblemau iechyd meddwl difrifol.

2.4 Ei nod yw cynnal llinell cyfathrebu effeithiol rhwng Gwasanaethau i Blant a Theuluoedd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Gofal Sylfaenol ac Asiantaethau Partner.

2.5 Ei nod yw sicrhau bod y plant hynny sy'n dioddef niwed neu a allai wynebu niwed fel y'i diffinnir yng Nghlanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a chanllawiau statudol yn cael eu nodi'n gynnar er mwyn sicrhau bod modd cynnig cymorth i atal y risg rhag cynyddu.

### **3. Cwmpas y Protocol**

3.1 At ddiben y protocol hwn, diffinnir oedolyn sydd â salwch meddwl fel a ganlyn:

- Unigolyn sydd â salwch meddwl ysgafn i gymedrol fel anhwylderau gorbryder, iselder ysgafn i gymedrol, anawsterau seicogymdeithasol, ymddygiadol neu emosiynol neu nam ar y cof
- Unigolyn sydd â salwch meddwl difrifol fel sgitsoffrenia neu seicosis (parhaus neu dros dro) arall, anhwylder deubegynol, anhwylder affeithiol difrifol, anhwylder bwyta difrifol, dementia neu anhwylder personoliaeth.

### **4. Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd**

4.1 Mae adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, cyrff y GIG, y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, Llywodraethwyr Carchardai, Cyfarwyddwyr Canolfannau Hyfforddi, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a gwasanaethau a gontractiwyd i wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau presennol mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

4.2 Bydd gweithwyr proffesiynol a staff sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant yn poeni am yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng y ddyletswydd gyffredinol sydd ganddynt tuag at ddefnyddwyr gwasanaethau a'u dyletswyddau i amddiffyn plant rhag niwed. Mae cyfrinachedd yn ffactor pwysig wrth alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ymgysylltu mewn ffordd hyderus a gonest, a dylai pob asiantaeth fodloni'r gofyniad i gadw cyfrinachedd, hyd y gellir. Ni ddylai'r wybodaeth bersonol a roddir gan ddefnyddiwr gwasanaeth gael ei rhannu ag eraill heb ganiatâd, oni bai y gallai diogelwch y defnyddiwr gwasanaeth neu unigolyn arall sy'n agored i niwed fod mewn perygl. Mae'r egwyddor gyffredinol a gorfforir mewn codau ymddygiad proffesiynol a moesegol, ac mewn deddfwriaeth hawliau dynol a diogelu data, yn cydnabod hawl unigolyn i breifatrwydd ond mae hefyd yn galluogi'r broses o ddatgelu a rhannu gwybodaeth o dan rai amgylchiadau priodol, er enghraifft pan fo pryder ynghylch lles plentyn.

4.3 Mewn achosion pan fo pryderon bod plentyn yn dioddef niwed sylweddol, neu y gallai wynebu risg o niwed sylweddol, bydd hyn bob amser yn drech nag unrhyw ofyniad proffesiynol neu ofyniad a bennir gan asiantaeth i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol. Mae ymchwil a phrofiad o adolygiadau o farwolaethau plant wedi dangos dro ar ôl tro bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol a staff rannu gwybodaeth am iechyd a datblygiad plentyn a'i amlygiad posibl i niwed mewn modd amserol er mwyn diogelu'r plentyn rhag camdriniaeth a/neu esgeulustod. Mae'n hanfodol eu bod yn rhannu gwybodaeth am y rhieni hynny y gall eu hanghenion olygu na allant ofalu am eu plant yn ddigonol, a'r rheini a allai beri risg o niwed.

4.4 Mae'r prif ddarpariaethau ynghylch datgelu gwybodaeth i weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr fel a ganlyn:

- Y ddyletswydd gyffredin o gyfrinachedd;
- Deddf Hawliau Dynol 2000;
- Deddf Diogelu Data 1998;
- Deddf Plant 1989;
- Deddf Plant 2004;
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

4.5 Nid yw'r gyfraith gyffredin a chyfyngiadau statudol yn atal gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr rhag rhannu gwybodaeth bersonol gyda'i gilydd ar yr amod:

- Bod y defnyddiwr gwasanaeth a/neu'r sawl sy'n debygol o gael eu heffeithio yn rhoi eu caniatâd;
- Bod y budd i'r cyhoedd o ran diogelu lles y plentyn yn drech na'r angen i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol; neu
- Bod angen i'r wybodaeth gael ei datgelu o dan orchymyn llys neu rywmedigaeth gyfreithiol arall.

4.6 Felly, mae'r ddeddfwriaeth yn cydnabod y gall fod modd cyfiawnhau datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd neu orchymyn lles er budd y cyhoedd er mwyn atal niwed i eraill. Pan fo pryderon ynghylch diogelwch plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithiwr proffesiynol neu aelod o staff rannu gwybodaeth heb ganiatâd, mae'n arfer da iddo sôn wrth yr unigolyn ei fod yn bwriadu gwneud hynny, oni fyddai'n gosod y plentyn neu bobl eraill mewn sefyllfa lle y byddent yn wynebu risg uwch o niwed.

4.7 Mae'n arfer da i weithiwr proffesiynol neu aelod o staff sy'n gwneud cais am wybodaeth gan asiantaeth arall egluro'r canlynol:

- Y math o wybodaeth sydd ei hangen arno;
- Pam mae angen y wybodaeth;

- Sut bydd yn defnyddio'r wybodaeth;
- Pwy arall y gall fod angen rhoi gwybod iddo os oes pryderon parhaus ynghylch y plentyn.

4.8 Mewn amgylchiadau lle ystyrir bod plentyn yn wynebu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod, efallai y bydd gofyn i weithwyr proffesiynol ac aelodau o staff roi gwybodaeth ar lafar neu mewn adroddiad ysgrifenedig, at ddiben:

- Cynnal asesiad cymesur neu arbenigol o amgylchiadau'r plentyn
- Cwblhau ymholiadau o dan Adran 47
- Rhoi gwybodaeth a chyngor i rieni
- Darparu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer plentyn a'i deulu
- Llywio'r penderfyniadau a wneir mewn Cynhadledd Amddiffyn Plant
- Cwblhau adroddiadau llys

Dylid nodi nad yw'r rhestr hon yn un ddiffiniol.

4.9 Dylai'r gweithiwr proffesiynol neu'r aelod o staff y gwneir cais iddo am wybodaeth ystyried y canlynol:

- P'un a oes risg ganfyddedig neu risg debygol y bydd plentyn yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso;
- P'un a oes ganddo wybodaeth berthnasol i'w rhoi;
- P'un a yw'r wybodaeth yn gyfrinachol, neu yn y parth cyhoeddus, neu p'un a allai asiantaeth arall ddarparu'r wybodaeth honno'n well;
- Pa wybodaeth y mae'r defnyddiwr gwasanaeth wedi rhoi caniatâd iddi gael ei rhannu;
- Faint o wybodaeth sydd angen ei rhannu er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r plentyn/plant.

## **5. Safonau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac aelodau o staff Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaethau i Blant ac Asiantaethau Eraill**

5.1 Dylai gweithwyr proffesiynol a staff gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n rhieni a/neu'n feichiog, a/neu sydd â chyfrifoldeb rhiant a/neu sydd â phlant yn byw gyda hwy.

5.2 Dylai gweithwyr proffesiynol a staff gwasanaethau i blant fod yn ymwybodol o faterion iechyd meddwl rhieni er mwyn sicrhau bod asesiad hyddysg yn cael ei gynnal ac er mwyn canfod a yw'r gwasanaethau iechyd meddwl yn gwybod am y rhieni y maent yn gweithio gyda hwy neu a fyddai'r rhieni hynny yn cael budd o wasanaethau iechyd meddwl.

5.3 Dylai hyfforddiant amlasiantaethol gael ei drefnu o dan y Bwrdd Diogelu Plant er mwyn:

- Sicrhau bod plant sy'n wynebu risg o niwed yn cael eu nodi'n gynnar, bod sgiliau cynnal asesiadau amlasiantaethol yn cael eu datblygu a bod gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo cydweithredu a chyfathrebu effeithiol rhwng asiantaethau.
- Gwella ymwybyddiaeth staff o faterion iechyd meddwl ac amddiffyn plant.

## **6. Rôl a chyfrifoldebau gwasanaethau iechyd meddwl o ran diogelu a hyrwyddo lles plant**

6.1 Bydd angen i wasanaethau iechyd meddwl yn y rhanbarth sicrhau bod eu defnyddwyr gwasanaethau yn gwybod y caiff unrhyw bryderon amddiffyn plant mewn perthynas â phlant eu rhannu â'r asiantaethau priodol.

6.2 Fel rhan o bob asesiad iechyd meddwl, yn ystod pob sesiwn triniaeth, p'un a yw'n cael ei chynnal mewn uned i gleifion mewnol neu yn y gymuned, bydd gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol yn:

- Cofnodi/cadarnhau, fel mater o drefn, p'un a yw'r oedolyn sy'n cael ei asesu yn rhiant neu p'un a oes ganddo rôl sylweddol o ofalu am blentyn.
- Cadarnhau a chofnodi manylion y plant, y trefniadau magu plant a'r asiantaethau sy'n gysylltiedig ar yr adeg honno.

6.3 Yn dilyn yr asesiad, dylai gweithwyr proffesiynol hysbysu'r gwasanaethau bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd neu nyrsio ysgol fel y bo'n briodol. Os na chafwyd yr atgyfeiriad cyntaf gan feddyg teulu, dylai gwasanaethau gofal sylfaenol gael eu hysbysu o unrhyw bryderon a all effeithio ar allu oedolyn i fagu plant neu ofalu amdanynt (Atodiad 1). Bydd angen ailasesu ar bob cam cyswllt pellach.

6.4 Pan fydd gweithwyr proffesiynol yn amau bod plentyn neu blentyn heb ei eni yn cael, neu'n wynebu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, rhaid iddynt ddilyn y broses atgyfeirio yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Ni ddylai atgyfeiriad amddiffyn plant priodol fod yn destun oedi am nad oes diagnosis wedi'i wneud mewn perthynas ag iechyd meddwl oedolyn. (Gweler y siart lif yn Atodiad 2)

6.5 Os oes gan weithwyr proffesiynol ac aelodau o staff gwasanaethau iechyd meddwl bryderon ynghylch lles plentyn defnyddiwr gwasanaeth, er enghraifft mewn perthynas â'i ddiogelwch, ei iechyd a/neu ei addysg a/neu ei



ddatblygiad, dylent ofyn am ganiatâd rhiant er mwyn ei atgyfeirio at yr asiantaeth briodol.

6.6 Mae'n rhaid i bob gweithiwr proffesiynol ac aelod o staff gwasanaeth iechyd meddwl i oedolion wneud atgyfeiriad at Wasanaethau i Blant yn unol â'r trefniadau lleol yn eu rhan hwy o'r rhanbarth.

6.7 Mae gofyn am ganiatâd rhiant yn arfer da ar yr amod nad yw hynny'n debygol o gynyddu'r risg o niwed i blentyn. Wrth ystyried gwneud atgyfeiriad, dylai gweithwyr proffesiynol ac aelodau o staff asiantaeth ofyn y cwestiynau canlynol:

- Pa wybodaeth, cymorth a chyngor sydd eu hangen ar rieni er mwyn atal risg o niwed i'r plentyn?
- Pa effaith y mae problemau iechyd meddwl y rhiant yn ei chael/yn debygol o'i chael ar les y plentyn?
- Pa mor agored i niwed mae'r plentyn/plant?
- Pa mor eang yw'r pryder/problem?
- A yw'r pryderon/problemau yn rhai hirsefydledig neu'n rhan o batrwm ailadroddus?
- Beth sy'n debygol o ddigwydd os bydd oedi cyn cymryd camau neu os na chaiff camau eu cymryd?
- Pa ffactorau/cryfderau diogelwch sydd ar waith?

6.8 Dylai gweithiwr proffesiynol neu aelod o staff asiantaeth ddarparu Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) wedi'i chwblhau sy'n rhoi gwybodaeth am y teulu, y sefyllfa yn y cartref a'r pryderon a nodwyd.

6.9 Wrth ystyried atgyfeirio, dylech ofyn a allai fod amgylchiadau pan fyddai atgyfeiriad yn atal niwed a phan allai ymyrraeth gynnar neu fesurau ataliol wedi'u targedu atal y risg rhag cynyddu. Mae angen caniatâd rhiant o dan yr amgylchiadau hyn.

6.10 Dylai pob atgyfeiriad a wneir ar lafar gael ei gyfeirio at y Pwynt Mynediad Unigol lleol i Blant a dylai gael ei gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 24 awr.

6.11 Mae hefyd yn bwysig i weithwyr proffesiynol a staff wahaniaethu rhwng tystiolaeth a difrifoldeb. Yn aml, mae'n anodd canfod tystiolaeth glir i brofi pryderon gweithiwr proffesiynol/aelod o staff, ond ni ddylai hyn gael ei ystyried yn arwydd nad yw'r sefyllfa yn un ddifrifol o bosibl.

6.12 Dylai pob gweithiwr proffesiynol ac aelod o staff gwasanaeth iechyd meddwl gynorthwyo gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol proffesiynol i gynnal asesiadau, drwy gyfrannu gwybodaeth berthnasol o ddeunydd asesu a mynychu a chyflwyno adroddiadau mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant a

chyfarfodydd cysylltiedig. Caiff hyn ei wneud yn unol â gofynion rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd.

## **7. Rôl a chyfrifoldebau'r gwasanaethau cymdeithasol o ran diogelu a hyrwyddo lles plant**

7.1 Pan fydd Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn atgyfeiriad neu adroddiad ynghylch plant rhiant sydd â salwch meddwl, caiff penderfyniad ei wneud ynghylch derbyn yr atgyfeiriad o fewn 24 awr a chaiff yr atgyfeiriwr ei hysbysu o fewn 7 diwrnod o'r canlyniad. Os caiff yr atgyfeiriad ei dderbyn, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol dynodedig yn cynnal asesiad o fewn 42 diwrnod. Caiff y plentyn ei weld a chaiff ei farn ei hystyried fel rhan o'r asesiad. Y brif dasg yw casglu a dadansoddi gwybodaeth o gynifer o ffynonellau â phosibl er mwyn penderfynu ar y camau gweithredu dilynol. Bydd yr asesiad yn cynnwys asesiad risg rhagarweiniol yn seiliedig ar ddadansoddiad o gryfderau a gwendidau a nodwyd a, phan fydd pryderon bod plentyn yn wynebu risg o niwed, cynhelir Trafodaeth Strategaeth neu Gyfarfod Strategaeth er mwyn ystyried a oes angen cynnal ymholiadau amddiffyn plant yn unol â Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

7.2 Pan gânt eu hysbysu am asesiad, bydd pob gweithiwr proffesiynol ac aelod o staff asiantaeth yn casglu ac yn cyfrannu gwybodaeth berthnasol am y plentyn a'r rhieni.

7.3 Efallai y bydd asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda phlant yn gallu rhoi gwybodaeth am y canlynol:

- Oedran y plentyn a'i ddatblygiad corfforol, cymdeithasol ac emosiynol;
- Anghenion addysgol y plentyn;
- Anghenion iechyd a gofal iechyd y plentyn;
- Effaith emosiynol newidiadau rheolaidd a/neu anrhagweladwy yn hwyliau ac ymddygiad yr oedolyn ar y plentyn;
- Canfyddiad y plentyn o broblemau iechyd meddwl y rhiant.

7.4 Ar ôl i'r asesiad gael ei gwblhau, caiff penderfyniad ei wneud ynghylch p'un a oes angen gofal a chymorth ar y plentyn ac, os felly, caiff Cynllun Gofal a Chymorth ei lunio a'i adolygu. Efallai y bydd angen cynnal rhagor o asesiadau arbenigol neu asesiadau cymesur manwl. Mae'n bwysig bod gwasanaethau i blant, gwasanaethau iechyd meddwl ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r plentyn a'r teulu yn rhannu perchenogaeth o'r Cynllun Plentyn sydd Angen Gofal a Chymorth.

7.5 Os bydd yr asesiad hwn yn nodi oedolyn y mae angen Cynllun Gofal a Chymorth arno, dylid gwneud atgyfeiriad at y gwasanaeth perthnasol.

7.6 Os ystyrir bod plentyn yn wynebu risg o niwed, cynhelir ymholiadau amddiffyn plant o dan Adran 47 a chaiff asesiad cymesur ei gwblhau a fydd yn penderfynu a ddylid galw Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

7.7 Mae'n rhaid i'r Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol gael ei chynnal o fewn 15 diwrnod gwaith i ddyddiad y Drafodaeth/Cyfarfod Strategaeth Amddiffyn Plant, ac felly dim ond hyn a hyn o amser y bydd gan asiantaethau i baratoi a rhannu eu hadroddiad gyda'r teulu a'i anfon at Gadeirydd y Gynhadledd o fewn dau ddiwrnod gwaith cyn y Gynhadledd. Os caiff enw plentyn ei osod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, caiff Cynllun Amddiffyn ei lunio a bydd yn ofynnol i asiantaethau sydd mewn cysylltiad â'r plentyn a/neu'r rhieni fynychu cyfarfodydd Grŵp Craidd Amddiffyn Plant a'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant.

7.8 Gall salwch meddwl fod yn gymhleth iawn ac, yn aml, mae'n ailymddangos, felly pan fydd ymgysylltiad Gwasanaethau i Blant neu Wasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yn dod i ben, mae'n hollbwysig bod pob asiantaeth dan sylw yn cael gwybod am y penderfyniad hwn. Mae'n bwysig sicrhau bod o leiaf un asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol fel iechyd ac addysg yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r plentyn er mwyn cadw'n effro i unrhyw arwyddion o anawsterau a allai ailymddangos.

7.9 Mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio i wasanaethau iechyd meddwl i oedolion sicrhau bod eu cynlluniau gofal yn cynnwys manylion penodol am broblemau eu cleientiaid a'r ymyriadau sydd eu hangen er mwyn eu helpu i gyflawni eu rôl fel rhieni. Mae'n rhaid ystyried rôl oedolyn fel rhiant a'r effaith y mae ei salwch meddwl yn ei chael ar ei allu i fagu plant ac ar ei blant maes o law. Dylid hefyd ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn ynghylch salwch ei riant.

7.10 Pan fo pryderon ynghylch lles plant, mae'n rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r teulu fod yn rhan o'r broses o lunio cynlluniau rhyddhau a chytuno arnynt. Mae angen i gynlluniau rhyddhau fod yn gadarn er mwyn sicrhau bod anghenion corfforol ac emosiynol y plentyn yn cael eu diwallu.

## **8. Ffactorau Risg**

8.1 Amcangyfrifir y bydd salwch meddwl neu anawsterau iechyd meddwl yn effeithio ar 1 o bob 4 o bobl ar ryw adeg yn eu bywydau. Bydd llawer o blant yn cael eu magu gan riant a fydd, ar ryw adeg, yn profi salwch meddwl. Bydd y rhan fwyaf o'r rhieni hyn yn profi salwch ysgafn neu fyrdymor a gaiff ei drin fel arfer gan eu meddyg teulu. Mae rhai plant yn byw gyda rhiant sydd â salwch meddwl hirdymor.

8.2 Mae ymchwil ddiweddar wedi tynnu sylw at effeithiau niweidiol trawma yn ystod plentyndod a all arwain at anawsterau iechyd, addysgol a

chymdeithasol hirdymor yn ogystal ag anawsterau hirdymor o ran meithrin cydberthnasau. Mae salwch meddwl rhieni wedi'i nodi fel un o'r prif brofiadau sy'n achosi straen sy'n gallu cael effaith andwyol ar yr amgylchedd y mae plant yn byw ynddo. Mae ymchwil yn dangos bod yr amgylcheddau teuluol mwyaf niweidiol i blant yn cynnwys cyfuniad o salwch meddwl rhieni, camddefnyddio alcohol/sylweddau a cham-drin domestig.

8.3 Mae'r cysylltiadau cryf rhwng amlygiad i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a bod yn agored i wahanol fathau o niwed gan gynnwys defnyddio sylweddau, beichiogrwydd anfwriadol yn yr arddegau, trais, salwch meddwl a phroblemau iechyd corfforol pan yn oedolyn yn golygu bod plant y sawl y mae'r profiadau hyn yn effeithio arnynt yn wynebu mwy o risg o amlygu eu plant eu hunain iddynt. Yn aml, gelwir hyn yn 'gylch trais'. O ganlyniad, gall atal y profiadau hyn mewn un genhedlaeth neu leihau eu heffeithiau ar blant fod o fudd nid yn unig i'r unigolion hynny ond hefyd i genedlaethau'r dyfodol ledled Cymru.

8.4 Mae'n hanfodol bod asiantaethau yn cydweithio er mwyn pennu mesurau ataliol effeithiol wedi'u targedu, ymyriadau adferol a chynlluniau amddiffyn plant ar gyfer y continwrm angen yn ei gyfanrwydd fel y nodir yn y Protocol Trothwyon Rhanbarthol, Y cymorth iawn ar yr adeg iawn. Gweler Atodiad 3.

8.5 Mae ymchwil hefyd yn dangos bod y risg o niwed i blant yn fwy tebygol o gynyddu os yw plant:

- Yn cael eu gwahanu dro ar ôl tro oddi wrth riant am fod angen iddo fynd i'r ysbyty
- Yn teimlo'n ansicr ynglŷn â'u cydberthynas â rhiant sydd â salwch meddwl
- Ddim yn cael y gofal iawn
- Yn cael eu bwrw neu eu cam-drin (mae hyn yn fwy tebygol os oes gan y rhiant broblemau alcohol neu gyffuriau neu anawsterau sy'n ymwneud â'i bersonoliaeth)
- Yn gofalu am riant sy'n sâl, neu'n gofalu am eu brodyr/chwiorydd
- Yn cael eu bwlio neu eu profocio gan eraill
- Yn clywed pobl yn dweud pethau cas am eu rhiant/rhieni
- Yn byw mewn tlodi, mewn tŷ sydd mewn cyflwr gwael neu'n symud tŷ yn aml
- Yn dyst i lawer o ddadlau neu drais rhwng eu rhieni
- Yn byw gyda gofalwyr sydd â hanes o beidio â chydymffurfio â thriniaeth / cymryd meddyginiaeth

8.6 Mae ymchwil i'r cysylltiadau rhwng gofal plant a salwch meddwl wedi dangos bod yr olaf yn ffactor sylweddol wrth ystyried diogelwch a lles y plentyn. Mae'n debygol y bydd yn effeithio ar ansawdd y rhyngweithio rhwng y rhiant a'r

plentyn o leiaf. Mae angen ystyried sut y gellir mynd ati i helpu'r oedolyn i fagu plant er mwyn diwallu anghenion ei blentyn/plant.

## 9 Asesu

9.1 Mae'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd yn darparu'r sail ar gyfer cynnal asesiadau systematig o blant a theuluoedd. Mae'r Fframwaith yn cwmpasu tri phrif faes: anghenion datblygu'r plentyn; y gallu i fagu plant a ffactorau teuluol ac amgylcheddol ehangach.

9.2 Mae'n rhaid i bob aelod o staff sy'n gweithio gydag oedolion sydd â salwch meddwl ystyried anghenion y plentyn/plant, yn unol â pharthau'r Fframwaith Asesu (Atodiad 1).

9.3 Dylai gwybodaeth gael ei chasglu, ei choladu a'i chofnodi mewn ffordd sy'n cefnogi proses ddadansoddi. Dylai'r Asesiad gynnwys crynodebau clir sy'n nodi cryfderau ac anawsterau ym mhob un o'r tri pharth ('ffactorau teuluol ac amgylcheddol', 'y gallu i fagu plant' ac 'anghenion datblygu'r plentyn').

9.4 Wrth gynllunio ar gyfer yr asesiad, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol – (gweler Atodiad 2 yn Safonau Iechyd Meddwl)

- Pwy fydd yn cymryd rhan yn yr asesiad, gan gynnwys aelodau'r teulu?
- Pwy fydd yn ymgymryd â pha rannau o'r asesiad?
- A oes unrhyw anawsterau cyfathrebu, a sut y gellir eu goresgyn
- Pa holiaduron a graddfeydd a ddefnyddir, a chan bwy?
- Pa agweddau ar yr asesiad yr ymgwymerwyd â hwy eisoes?
- A oes unrhyw ffynonellau gwybodaeth am y plentyn/plant neu'r teulu na chysylltwyd â hwy eisoes
- A gafwyd caniatâd rhieni'r plentyn ac, os na, sut y gellir ei gael
- Lle caiff yr asesiad ei gynnal
- Sut y caiff y wybodaeth ei chofnodi
- Pwy fydd yn ymgymryd â'r dadansoddiad a sut y caiff ei wneud
- Beth yw'r amserlen ar gyfer pob cam
- A oes angen unrhyw asesiadau arbenigol
- Pwy fydd yn gwneud gwaith uniongyrchol gyda'r plentyn/plant?
- Pa ran fydd aelodau'r teulu a'r plant yn ei chwarae yn yr asesiad
- A oes angen i'r asesiad 'gyfethol' unrhyw aelodau â meysydd gwybodaeth a sgiliau penodol e.e. asesiadau fforensig, Seiciatryddion, Seicolegwyr.

9.5 Nid yw'r protocol hwn yn awgrymu y dylai gweithwyr iechyd meddwl gynnal asesiadau llawn o blant; yn hytrach, dylai parthau'r Fframwaith Asesu ddarparu sail ddefnyddiol ar gyfer ystyried anghenion plant a dylent gael eu hystyried fel mater o drefn wrth asesu oedolion â phroblemau iechyd meddwl.

Bydd gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl oedolion yn werthfawr iawn wrth fynd ati i asesu effaith iechyd meddwl y rhiant yn y parth 'gallu i fagu plant'. Dylai unrhyw effaith gael ei hadlewyrchu yn y cynllun gofal a thriniaeth a dylid sicrhau bod y claf/rhiant yn cytuno ar unrhyw gamau gweithredu.

9.6 Yn aml, bydd salwch neu ymddygiad rhieni yn gwneud i blant deimlo'n ofnus neu'n bryderus a byddant yn dangos arwyddion o drallod. Bydd rhai plant yn ymwrthod, yn mynd yn bryderus ac yn ei chael hi'n anodd canolbwyntio ar eu gwaith ysgol. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd iawn siarad am salwch eu rhiant neu eu problemau gartref, a gall hyn eu rhwystro rhag cael help. Weithiau, bydd plant yn teimlo cywilydd ynglŷn â salwch eu rhiant ac yn poeni am fynd yn sâl eu hunain. Gall rhai plant fynd ati i efelychu'r ymddygiad ymosodol y maent yn ei weld gartref, gan arwain at wrthdaro â phlant eraill, athrawon a phobl eraill mewn awdurdod.

9.7 Gall plant cyn ysgol arddangos anawsterau ymddygiadol fel problemau bwydo, ymddygiad, mynd i'r toiled a chysgu.

9.8 Ni ddylid tanamcangyfrif effaith salwch mamol gwael ar ddatblygiad plentyn sydd heb ei eni.

## **10 Cynllunio ac Adolygu Gofal a Thriniaeth**

10.1 Yn y cyd-destun hwn, Cynllun Gofal a Thriniaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion yw'r 'cynllun y cytunir arno ar y cyd'. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar asesiad cyfannol o anghenion y teulu, gyda'r pwys mwyaf yn cael ei roi ar anghenion y plentyn.


10.2 Yn dilyn y Cyfarfod Cynllunio ar y Cyd, bydd pob Cynllun Gofal a Thriniaeth yn nodi amcanion clir, cyfrifoldebau a dyddiadau adolygu.

10.3 Mae'n hanfodol bod cyfathrebu da a threfniadau cynllunio ar y cyd er mwyn helpu'r gwasanaethau i ymateb mewn ffordd briodol ac integredig. Dylai fod ymgynghori rhwng teuluoedd a thimau bob amser mewn perthynas â newidiadau sylweddol i Gynlluniau Gofal ac unrhyw fwriad i gau achos. Dylai Gwasanaethau i Blant gael eu hysbysu bob amser os bydd newidiadau sylweddol mewn teulu a all effeithio ar y ffordd y mae plant yn cael eu magu, er enghraifft, os bydd rhiant neu ofalwr yn gadael y cartref ac yn gadael y rhiant arall sydd â salwch meddwl i ofalu am y plant ar ei ben ei hun. Yn ogystal, mae'n rhaid i Wasanaethau i Blant gael eu hysbysu bob amser os oes cynlluniau i ryddhau rhiant/gofalwr o ofal seiciatrig aciwt.

10.4 Mewn achosion lle nad oes gan y rhiant Weithiwr Cymdeithasol neu Gydgyssylltydd Gofal penodedig, bydd Rheolwr Tîm perthnasol neu ddirprwy dynodedig o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn rhoi cyngor, yn ymgynghori â Gwasanaethau i Blant ac yn cyflawni'r rôl gydgysylltu.

- 10.5 Fel arall, os nad oes gan y plentyn/plant Weithiwr Cymdeithasol penodedig, bydd Rheolwr Tîm perthnasol neu ddirprwy dynodedig o'r Gwasanaethau i Blant yn rhoi cyngor ac yn ymgynghori â'r Tîm Iechyd Meddwl.
- 10.6 Gall nifer o weithwyr proffesiynol o amrywiaeth o asiantaethau gymryd rhan gan gynnwys Gofal Sylfaenol, Addysg, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Sector Gwirfoddol. Mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i sicrhau cynrychiolaeth amlasiantaethol mewn Cyfarfodydd Cynllunio ar y Cyd.

## Fframwaith Asesu




### Ffactorau Teuluol ac Amgylcheddol

Hanes y Teulu a'i Weithrediad  
Y teulu ehangach  
Tai  
Cyfogaeth  
Incwm  
Integreiddiad Cymdeithasol y Teulu  
Adnoddau Cymunedol



## ATODIAD 2:

### SIART LIF DIOGELU PLANT AR GYFER GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL



Rhowch wybod i'r gweithiwr proffesiynol perthnasol am yr asesiad a rhowch y wybodaeth ddiweddaraf iddo fel y bo angen.

- Os yw'r claf yn feichiog, mae angen rhoi gwybod i'r fydwraig
- Os yw'r plant yn 5 oed neu'n iau, mae angen rhoi gwybod i'r Ymwelydd Iechyd
- Os yw'r plant dros 5 oed, mae angen rhoi gwybod i Nyrs Iechyd yr Ysgol

Cadarnhewch a yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn gwybod am y plant yn barod. Os ydynt, mae angen rhoi gwybod i'r Gweithiwr Cymdeithasol am yr asesiad. Os yw'r plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, dylid ei wahodd i gyfarfodydd Cynllun Gofal Gweithiwr Cymdeithasol am yr asesiad. Os yw'r plant ar y

Os ydych yn pryderu bod angen cymorth ychwanegol ar y plant hyn neu eu bod yn wynebu risg o niwed sylweddol, dylech ystyried a oes angen i chi wneud atgyfeiriad at Wasanaethau Cymdeithasol. Os hoffech drafod unrhyw bryderon ymhellach, cysylltwch â'r Tîm Diogelu Plant a/neu Wasanaethau Cymdeithasol i Blant.

Wedi'i chymryd o'r Safonau Diogelu Plant ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion, Iechyd Cyhoeddus Cymru (cyfieithiad). Fe'i haddaswyd yn wreiddiol o siart a luniwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

ATODIAD 3:

Continwmm Angen fel y'i cynhyrchwyd yn y Protocol Trothwyau Rhanbarthol a Chymhwysra ar gyfer Cymorth.

# Fframwaith Cymorth Cywir ar yr Adeg Gywir

